## Cais i ymuno â'r Gofrestr Gwasanaethau Blaenoriaeth

Enw:

Cyfeiriad:

Cod Post:

Rhif ffôn cartref:

Ffôn symudol:

E-bost:

Am resymau diogelwch – ysgrifennwch y cyfrinair isod

**Datganiad:**

☐ Rwy'n cadarnhau bod y manylion a roddais yn wir ac yn gywir.

**Hysbysiad Preifatrwydd:** Fel Cwsmer Gwasanaeth Blaenoriaeth rydyn ni'n casglu ac yn prosesu eich data personol er mwyn i ni allu cysylltu â chi os bydd toriad yn eich cyflenwad pŵer.

Byddwn yn prosesu eich data personol yn unol â'r holl gyfreithiau a deddfwriaethau perthnasol. Byddwn hefyd yn rhannu'r wybodaeth hon â'ch cyflenwr ynni/cyfleustodau (pwy bynnag y byddwch yn dewis talu eich bil iddo), eu hasiantau a thrydydd partïon er mwyn iddynt allu darparu'r cymorth angenrheidiol. I gael rhagor o fanylion am eich hawliau a sut rydyn ni'n prosesu eich data personol, darllenwch yr Hysbysiad Preifatrwydd Llawn sydd ar gael ar ein gwefan www.spenergynetworks.co.uk/pages/privacy.aspx neu cysylltwch â'r Rheolwr Diogelu Data yn DP@spenergynetworks.co.uk.

Gallwch hefyd gysylltu â ni drwy ysgrifennu atom yn: Data Protection Manager, SP Energy Networks, 320 St Vincent Street, Glasgow G2 5AD.

*Mae sefydliadau eraill yn cynnwys elusennau dibynadwy fel y Groes Goch Brydeinig, a all helpu i gefnogi cwmnïau i'ch diogelu chi ac aelodau eraill o'r aelwyd yn ystod rhai digwyddiadau.

## Sut mae cofrestru ar gyfer gwasanaethau blaenoriaeth

Defnyddiwch ein gwefan i gyflwyno ffurflen gais ar-lein neu llenwch y ffurflen sydd ynghlwm a'i phostio i'r cyfeiriad isod.

**0330 10 10 167**
**spenergynetworks.co.uk/priorityservices**
**customercare@spenergynetworks.com**

**Os ydych chi'n byw yng Nghanolbarth a De'r Alban, ysgrifennwch at:**
Customer Contact Team
SP Energy Networks
3rd Floor
320 St Vincent Street
Glasgow G2 5AD

**Os ydych chi'n byw yn Swydd Gaer, Glannau Mersi, Gogledd Cymru neu Ogledd Swydd Amwythig, ysgrifennwch at:**
Customer Contact Team
SP Energy Networks
3 Prenton Way
Prenton CH43 3ET

**Os hoffech chi gael eich ychwanegu at ein Cofrestr Gwasanaethau Blaenoriaeth, anfonwch y neges destun PSR i 61999.**

**Fel arfer, byddwn yn cysylltu â chi o fewn 48 awr.**

Ni fydd galwadau i rifau 03 yn costio mwy na phris galwad ar gyfradd genedlaethol i rifau 01 neu 02 a rhaid iddynt gyfrif tuag at unrhyw funudau cynhwysol, yn yr un modd â galwadau i rifau 01 a 02. Mae'r rheolau hyn yn berthnasol i alwadau o unrhyw fath o linell, gan gynnwys ffonau symudol, BT, llinellau sefydlog eraill neu ffonau talu.

SCP9006 NOV 23



# Cymorth ychwanegol yn ystod toriad pŵer

## Y Gofrestr Gwasanaethau Blaenoriaeth

SP Energy Networks

# Sut i gofrestru ar gyfer gwasanaethau blaenoriaeth

**Os bydd toriad pŵer bydd ein timau'n gweithio bob awr o'r dydd i adfer eich trydan cyn gynted â phosibl. Rydyn ni'n gwerthfawrogi y gallai hyn beri gofid mawr i rai cwsmeriaid, a dyna pam rydyn ni'n cynnig cymorth ychwanegol i gwsmeriaid sy'n teimlo bod arnynt angen ein help.**

Rydyn ni'n cadw Cofrestr Gwasanaethau Blaenoriaeth er mwyn i ni allu cysylltu â'n cwsmeriaid mwyaf agored i niwed os bydd eu pŵer yn cael ei dorri.

**Gallwch chi ymuno â'n Cofrestr Gwasanaethau Blaenoriaeth os ydi'r canlynol yn berthnasol i chi:**

- Rydych chi dros 60 oed
- Mae gennych chi anghenion cyfathrebu arbennig
- Rydych chi'n dibynnu ar drydan ar gyfer gofal meddygol neu ofal cartref
- Mae gennych chi blentyn o dan 5 oed
- Mae gennych chi salwch cronig
- Neu os ydych chi'n teimlo bod arnoch angen ychydig o help ychwanegol.

Gallwch chi hefyd gofrestru gyda ni os oes arnoch angen cymorth am gyfnod byr. e.e. os ydych chi'n gwella ar ôl llawdriniaeth, os ydych chi'n feichiog, neu os ydych chi wedi cael profedigaeth yn ddiweddar.

Ni fydd bod ar ein cofrestr o reidrwydd yn golygu y gallwn ni adfer eich pŵer yn gynt, ond byddwn ni'n ceisio cysylltu â chi os byddwn yn gwybod am broblem yn eich ardal. Efallai na fydd hyn bob amser yn bosibl oherwydd efallai na fyddwn yn ymwybodol eich bod wedi cael toriad pŵer, felly cysylltwch â ni ar **105** os nad oes gennych bŵer neu ffoniwch ein llinell PSR bwrpasol ar **0330 10 10 167**.

Ni fydd yn costio ceiniog i chi ymuno – mae ein Cofrestr Gwasanaethau Blaenoriaeth yn wasanaeth sydd **AM DDIM**. Cofrestrwch ar gyfer y Gofrestr Gwasanaethau Blaenoriaeth drwy ddefnyddio'r ffurflen ar y dde neu drwy ein ffonio ar **0330 10 10 167**.

I ddiweddaru eich manylion neu i gael eich tynnu oddi ar y Gofrestr Gwasanaethau Blaenoriaeth, cysylltwch â ni ar **0330 10 10 167.**

# Beth rydyn ni'n ei gynnig Cwsmeriaid Gwasanaethau Blaenoriaeth

**Os byddwch yn cofrestru gyda ni:**


- Byddwn yn rhoi gwybod i chi ymlaen llaw os bydd toriad pŵer wedi'i gynllunio yn effeithio arnoch chi;
- Rydyn ni'n cadw Cofrestr Gwasanaethau Blaenoriaeth er mwyn i ni allu cysylltu â'n cwsmeriaid mwyaf agored i niwed os bydd eu pŵer yn cael ei dorri.

**Cyfrineiriau**

Os ydych chi'n ddall, gyda golwg gwael neu os hoffech chi deimlo'n fwy diogel, gallwch gytuno ar gyfrinair gyda ni pryd bynnag y byddwch chi'n gwneud apwyntiad.

**Cymuned Ar-lein**

Os hoffech chi helpu i siapio'r gwasanaeth a gynigir gan SP Energy Networks a'n helpu ni i ddod o hyd i ffyrdd o wella, cymerwch amser i ymuno â'n cymuned ar-lein yn: **www.spenergynetworks.co.uk/online_community**




# Rhowch wybod i ni am eich anghenion isod drwy dicio'r holl flychau sy'n berthnasol i chi:

| | | |
|---|---|---|
| **Cyfarpar meddygol i'r rheini sy'n ddibynnol arnynt** | Peiriant Calon, Ysgyfaint neu Anadlu | ☐ |
| | Peiriant dialysis, pwmp bwydo a pheiriant sy'n darparu meddyginiaeth awtomataidd | ☐ |
| | Oxygen concentrator | ☐ |
| | Nebiwleiddiwr | ☐ |
| | Monitor dal anadl wrth gysgu | ☐ |
| | Dibynnu'n feddygol ar gawodydd trydan | ☐ |
| | System Careline/telecare | ☐ |
| | Oergell ar gyfer meddyginiaeth | ☐ |
| | Lifft grisiau | ☐ |
| | Teclyn codi o'r bath | ☐ |
| | Gwely trydanol | ☐ |
| **Diogelwch** | Defnyddio ocsigen | ☐ |
| | Synnwyr arogli gwael | ☐ |
| **Symudedd Gwael** | Nam corfforol | ☐ |
| | Methu ateb y drws/symudiadau corff cyfyngedig | ☐ |
| | Symudiadau llaw cyfyngedig | ☐ |
| **Yn gysylltiedig ag Oedran** | Oedran pensiwn | ☐ |
| | Teuluoedd gyda phlant o dan 5 oed | ☐ |
| **Cyfathrebu** | Dall | ☐ |
| | Rhannol ddall | ☐ |
| | Nam ar y clyw | ☐ |
| | Nam ar y lleferydd | ☐ |
| | Ddim yn gallu cyfathrebu yn Saesneg | ☐ |
| | Dywedwch wrthym ba iaith fyddai orau gennych chi ei defnyddio: | |
| **Iechyd** | Salwch cronig/difrifol | ☐ |
| | Dementia(au) | ☐ |
| | Cyflwr datblygiadol | ☐ |
| | Iechyd meddwl | ☐ |
| | Mae'n well cael presenoldeb ychwanegol | ☐ |
| | Yn dibynnu ar ddŵr | ☐ |
| **Dros Dro** | Dros dro - Newidiadau i'ch bywyd | ☐ |
| | Dros Dro - Adfer ar ôl gadael yr ysbyty | ☐ |
| | Dros dro - Deiliad tŷ sy'n oedolyn ifanc (dros 18) | ☐ |